**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**—**
**Health and Social Care Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddIechyd
0300 200 6565
**—**
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHealth@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHealth
0300 200 6565

Alex Howells
Prif Weithredwr
Addysg a Gwella Iechyd Cymru

17 Mai 2023

Annwyl Alex

Ymchwiliad i ganserau gynaecolegol

Mae'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn edrych ar brofiadau menywod sydd â symptomau o ganser gynaecolegol, o ran sut mae gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn gwrando arnynt ac yn eu trin, a sut mae gwasanaethau yn grymuso ac yn gofalu am fenywod sydd wedi cael diagnosis o ganser gynaecolegol i sicrhau y caiff eu hanghenion corfforol, eu hanghenion seicolegol a'u hanghenion ymarferol eu diwallu.

Yn ystod sesiwn dystiolaeth lafar ar 27 Ebrill 2023, codwyd nifer o faterion mewn perthynas â'r gweithlu, a byddai o gymorth i'n hymchwiliad pe baech yn gallu rhoi'r wybodaeth y gofynnir amdani yn yr atodiad ynghlwm. Er mwyn helpu i lywio sesiynau tystiolaeth yn y dyfodol, byddem yn ddiolchgar i gael eich ymateb erbyn dydd Llun 12 Mehefin 2023.

Yn gywir

Russell George AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

**Senedd Cymru**
**Welsh Parliament**

# Atodiad: Ymchwiliad i ganserau gynaecolegol

Yn ystod ein sesiwn dystiolaeth ar 27 Ebrill 2023 fel rhan o'n hymchwiliad i ganserau gynaecolegol, codwyd nifer o faterion yn ymwneud â'r gweithlu. Byddem yn croesawu cael rhagor o wybodaeth am y materion a restrir isod. Byddem yn ddiolchgar pe baech yn anfon eich ymateb erbyn dydd Llun, 12 Mehefin 2023.

1. Mae Cynllun Gwella Canser Cymru yn dweud bod angen gwell cynllunio o ran y gweithlu, gan gynnwys gwell dealltwriaeth o anghenion gweithlu'r dyfodol. A allech roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynllun gweithlu canser ac yn benodol fanylion am gynllunio'r gweithlu mewn perthynas â'r gweithlu canser gynaecolegol.

2. Data ar nifer y nyrsys canser gynaecolegol arbenigol sy'n gweithio yn GIG Cymru. Dywedwyd wrthym hefyd nad oes unrhyw lwybrau addysgol â chymorth i ganiatáu i nyrsys band 5 cymwysedig ddatblygu i fod yn nyrsys canser arbenigol. A allech gadarnhau a yw hynny'n wir.

3. Data ar nifer y swyddi oncolegwyr gynaecolegol ymgynghorol, nifer y swyddi gwag, a nifer perthnasol y swyddi hyfforddi meddygon ymgynghorol fesul bwrdd iechyd yng Nghymru.

4. Dywedwyd wrthym fod llawer o nyrsys clinigol arbenigol yn prysur agosáu at oedran ymddeol. A yw AaGIC wedi gwneud unrhyw ragamcanion ar nifer y nyrsys clinigol arbenigol sy'n debygol o ymddeol yn y 5-8 mlynedd nesaf a phwy a fydd yn cymryd eu lle/eu harbenigedd.

5. Pa fynediad at hyfforddiant sydd ar gael i nyrsys newydd a nyrsys profiadol ddod yn nyrsys canser arbenigol.